Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:
Gofynner am / Please ask for:
Fy nghyf / My ref:
Llinell Uniongyrchol / Direct Line:
Dyddiad / Date:
**10.09.2020**
E-bost / E-mail:

Annwyl Riant/Gofalwr

Gobeithio bod eich plant yn ymgartrefu yn yr ysgol ar ôl ychydig fisoedd trafferthus iawn oherwydd y pandemig coronafeirws.

Unwaith eto hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac am bopeth rydych wedi'i wneud i gynorthwyo dysgu eich plentyn, ysgol eich plentyn a'r cyngor sir.

Rydym wedi bod yn gweithio gydag ysgolion fel eu bod yn gwbl barod i groesawu plant yn ôl ar gyfer tymor yr hydref gyda'r mesurau diogelwch priodol ar waith.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn ysgolion er mwyn lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo'r coronafeirws, a lleihau unrhyw risg i ddisgyblion a staff, gan gynnwys asesiadau risg, mwy o lanhau a golchi dwylo'n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol a grwpio dysgwyr.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r coronafeirws wedi diflannu, ac mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel.

Mae'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan ysgolion yn hollbwysig ac ni allaf bwysleisio'n ddigon cryf pa mor bwysig yw hi ein bod ni i gyd yn dilyn y mesurau hyn.

Yn benodol, hoffwn atgoffa rhieni i ddilyn y trefniadau ar gyfer **cadw pellter cymdeithasol** wrth ollwng a chasglu eich plant o'r ysgol.

Gan fod pob disgybl yn dychwelyd yr wythnos nesaf, mae'n hanfodol bod rhieni'n cadw eu pellter er mwyn osgoi cyswllt agos a throsglwyddo'r feirws o bosibl.

Gofynnaf i chi wneud y canlynol:

- Cyrhaeddwch yn brydlon i'ch slot dynodedig.
- Sefwch 2 fetr oddi wrth deuluoedd eraill.
- Gadewch yn brydlon a symudwch i ffwrdd o'r ysgol cyn gynted ag y byddwch wedi gollwng eich plentyn.
- Peidiwch ag ymgynnull y tu allan i gatiau'r ysgol gan fod hyn ei gwneud yn anodd i deuluoedd eraill sy'n cyrraedd ar amseroedd gwahanol.

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Hoffwn eich atgoffa hefyd o'r trefniadau os yw eich plentyn yn sâl. Ni ddylech, dan unrhyw amgylchiadau, anfon eich plentyn i'r ysgol:

- os yw'n teimlo'n sâl, gydag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu mae wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

- os yw'n byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl y tu allan i oriau ysgol gydag unrhyw un o symptomau COVID-19 neu os oes angen iddo hunanynysu, rhowch wybod i ni am hyn drwy ffonio Llesiant Delta ar 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at TTP@deltawellbeing.org.uk, a fydd yn rhoi gwybod i'r ysgol ar eich rhan.

Cysylltwch â Delta Wellbeing y tu allan i oriau dim ond os oes gan eich plentyn symptomau COVID-19. Yn ystod oriau ysgol ac ar gyfer pob mater arall sy'n ymwneud ag iechyd, rhowch wybod i'ch ysgol yn uniongyrchol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i geisio atal y feirws ac i osgoi cynnydd sydyn yn ein cymuned a'r posibilrwydd o ailgyflwyno cyfyngiadau symud.

Yn gywir

Gareth Morgans
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

**Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English